**EUR 05-01(min)**

**Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd**

**COFNODION**

| |
|---|
| **Dyddiad:** 17 Hydref 2001 |
| **Amser:** 9.00am |
| **Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| |
| **Yn bresennol: Aelodau** |
| Rhodri Morgan Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| (Cadeirydd) |
| |
| Nicholas Bourne Ceidwadol: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman Llafur: Cwm Cynon |
| Mike German Democrat Rhyddfrydol: Canol De Cymru |
| John Griffiths Llafur: Dwyrain Casnewydd |
| Ieuan Wyn Jones Plaid Cymru: Ynys Môn |
| Jonathan Morgan Ceidwadol: Canol De Cymru |
| Rhodri Glyn Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Thomas Dinefwr |
| Phil Williams Plaid Cymru: Dwyrain De Cymru |
| |

| |
|---|
| **Gwahoddedigion Sefydlog** |
| Jos Gallagher Cyfarwyddwr, Canolfan Ewropeaidd Cymru |
| |
| **Yn bresennol** |
| |
| Glyn Davies Cadeirydd: Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig |
| Andrew Davies E-Weinidog |
| Alun Cairns Pwyllgor Datblygu Economaidd |
| Ron Davies Pwyllgor Datblygu Economaidd |
| Alison Halford Pwyllgor Datblygu Economaidd |
| Dafydd Wigley Pwyllgor Datblygu Economaidd |
| |
| Phil Bird Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Jackie Brown Pennaeth Uned, Rhaglenni Ewropeaidd |
| Des Clifford Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel |
| Charles Coombs Uned Datblygu Cynaliadwy |
| Gary Davies Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Philip Elkin Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| Nigel Finlayson Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth |
| Allan Moss Is-adran Polisi Economaidd |
| John Neve Adran Masnach a Diwydiant |
| Dr David Rawlings Adran Masnach a Diwydiant |

| | |
|---|---|
| Russell Keith | Clerc y Pwyllgor |
| James Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Adroddiad y Cadeirydd**

**Papur:** EUR-05-01(p1)

1.1 Croesawyd pawb i’r Pwyllgor gan y Cadeirydd. Cafwyd ymddiheuriadau gan George Wright, Rose D’Sa, Catherine Eva, y Cynghorwyr Jon Huish a Brian Smith ac ASE Cymru, Jonathan Evans, Glenys Kinnock, Eluned Morgan, Eurig Wyn a Jill Evans.

1.2 Cyflwynodd y Cadeirydd ei adroddiad ysgrifenedig:

- Ymwelodd Jane Hutt â Brwsel ym mis Mehefin i gyfarfod â David Byrne, Comisiynydd yr UE dros Iechyd a Materion Diogelu Defnyddwyr. O ganlyniad i’r cyfarfod hwn, dangoswyd llawer o ddiddordeb gan y Comisiwn a Mudiad Iechyd y Byd yng ngwaith y Cynulliad o ddatblygu asesiadau effaith ar iechyd. Mae hyn wedi arwain at nifer o gyfarfodydd rhwng Swyddogion y Cynulliad, y Comisiwn a Mudiad Iechyd y Byd.
- Caerdydd oedd lleoliad seminar Gwasanaethau Cymorth i Fusnes o’r Radd Flaenaf a noddwyd gan DG Enterprise y Comisiwn Ewropeaidd ar 11 a 12 Hydref. Cyfarfu Grðp DG Enterprise ar 15 a 17 Hydref hefyd i drafod Arloesedd a Diogelu Patentau.
- Rhoddodd y Cadeirydd yr araith agoriadol yng Nghynhadledd Busnes a’r Amgylchedd, a gynhaliwyd gan y Comisiwn yng Nghaerdydd ar 9 a 10 Hydref.
- Ar 23 Gorffennaf, mynychodd Carwyn Jones gyfarfod y Cyngor Amaethyddol ym Mrwsel fel rhan o ddirprwyaeth o’r DU. Cynhwyswyd diwygiadau cig oen yn y materion i’w trafod.
- Cyhoeddodd y Cadeirydd iddo gyfarfod â grðp o uwch swyddogion yn cynrychioli 12 o’r gwledydd sydd yn y broses o gael eu derbyn ym mis Gorffennaf a oedd yn astudio polisi rhanbarthol a’r broses o’i ddatblygu.
- Roedd y Cadeirydd wedi derbyn gwahoddiad gan Farsial Foifodiaeth Silesia, Mr Jan Olbrycht i ymweld â Silesia.
- Lansiwyd y "Secondiadau i Gynllun Sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd" gan y Cynulliad ar 1 Hydref.
- Ar 29 Hydref, byddai’r Cadeirydd yn cadeirio trydydd cyfarfod Cadeiryddion Pwyllgorau Ewropeaidd Seneddau’r DU ym Mrwsel.

1.3 Nododd y Cadeirydd i nifer o ymweliadau gan Weinidogion gael eu cynnal yn ystod y toriad a fyddai o ddiddordeb penodol i’r Pwyllgor.

- Ar 24 a 25 Mehefin, mynychodd Carwyn Jones gyfarfodydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ym Mrwsel. Mynychodd y Gweinidog a chwe Aelod arall o’r Cabinet gyfres o gyfarfodydd gyda swyddogion y Comisiwn, gan gynnwys y Chef de Cabinet, Franz Fischler, AES Cymru a staff Canolfan Ewropeaidd Cymru (CEC).

- Ymwelodd Sue Essex â Sweden rhwng 18 a 20 Medi i gyfarfod â Gweinidog Sweden dros yr Amgylchedd, Kjell Lansson, i drafod strategaeth gwastraff y wlad honno a materion amgylcheddol yn gyffredinol. Ar y cyfan, mae Sweden wedi cynyddu cyfraddau adennill gwastraff ac ailgylchu dros y degawd diwethaf ac mae wedi lleihau'r defnydd o safleoedd tirlenwi, yn enwedig ar gyfer gwastraff peryglus.
- Ymwelodd Jane Hutt â Gastein yn Awstria ar 25 a 26 Medi i annerch y Fforwm Iechyd Ewropeaidd – cyfarfod integreiddio Iechyd ar Draws Polisïau.
- Mynychodd Andrew Davies gynhadledd Tele Region Networks yn Valencia rhwng 2 a 6 Hydref.
- Ar 14 a 15 Hydref, bu Carwyn Jones yn "Anuga" 2001, yng Nghwlen, yr Almaen. Mae Anuga yn un o'r ffeiriau masnach gwybodaeth ac archebu pwysicaf i'r diwydiant bwyd a diod ledled y byd.

1.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at yr Aelodau gyda gwybodaeth am y cysylltiadau parhaus rhwng adran Amaethyddiaeth y Cynulliad a swyddogion y Comisiwn Ewropeaidd.
- Mae angen cynnwys y sector preifat o ran cyfleoedd ar gyfer secondiadau Ewropeaidd. Mae'r Cynulliad yn cysylltu â CEC i nodi ymgeiswyr posibl ar gyfer secondiadau.
- Eglurodd y swyddogion bod cynllun secondiadau wedi'i anelu at y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol ar y dechrau.

**Eitem 2: Tele Regions Network**

**Papur:** EUR-05-01(p2)

2.1 Cyflwynwyd y papur gan Andrew Davies. Sefydlwyd y Tele Regions Network (TRN) ym 1996 ac nid yw ei aelodau yn dod o wledydd Ewropeaidd yn unig. Mae'r Rhwydwaith yn lledaenu Arfer Gorau ac yn rhoi llais i'r rhanbarthau mewn cysylltiadau â'r Comisiwn Ewropeaidd. Cychwynnodd Andrew Davies ar ei swydd yn Llywydd y Rhwydwaith ym mis Mawrth 2001. Canolbwyntiodd cynhadledd flynyddol TRN yn Valencia ym mis Hydref, lle yr oedd llawer o gynrychiolwyr o Gymru, ar greu cysylltiadau rhwng y rhanbarthau a defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar gyfer gwaith datblygu rhanbarthol gan gynnwys canolbwyntio ar waith adfywio cymunedol gwledig ac economaidd. Mae'n bosibl y caiff y gynhadledd flynyddol nesaf ei chynnal yng Nghymru.

2.2 Ymhlith datblygiadau'r TRN yn y dyfodol mae defnyddio TGCh i gyflwyno mentrau cyffredinol megis datblygu ac adfywio economaidd, datblygu cynaliadwy, cyfle cyfartal a chynhwysedd cymdeithasol. Mae gan y rhanbarthau rôl gynyddol yn y broses o ddefnyddio TGCh i gyflwyno'r polisïau hyn. Nodwyd bod Cymru ar y blaen yn y gwaith o brif ffrydio TGCh at y diben hwn. Roedd y Comisiwn Ewropeaidd wedi gwahodd yr E-Weinidog i fynychu cynhadledd ar E-Lywodraeth ar ddiwedd mis Tachwedd.

2.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nid yw Silesia yn aelod o'r TRN ar hyn o bryd, er bod y Rhwydwaith yn bwriadu cynyddu nifer yr aelodau ar hyn o bryd.
- Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal cynhadledd TRN yng Nghymru yn y dyfodol. Ni ddylid dewis Caerdydd yn awtomatig er i'r problemau logistaidd o ran cynnal y gynhadledd y tu allan i'r brifddinas gael eu codi. Nodwyd hefyd y byddai cynnal cynadleddau cenedlaethol yng Nghaerdydd yn helpu i gefnogi cais y Ddinas i fod yn Brifddinas Ddiwylliant Ewrop 2002.
- Byddai cyhoeddiad o fewn ychydig o wythnosau ar Gynllun Gweithredu yn rhoi manylion am ymagwedd tuag at gysylltiadau band llydan yng Nghymru. Nodwyd bod argaeledd technoleg band llydan yn rhanbarthol yn fodd defnyddiol o roi mynediad gwell i lywodraeth ranbarthol i ddinasyddion.
- Trafodwyd y bwlch digidol, lle y mae gan wledydd a rhanbarthau ag incymau uwch fynediad gwell i gyfleusterau TG. Mae'n bwysig datblygu cyfleusterau cymunedol sy'n sicrhau bod pawb yn cael mynediad i'r dechnoleg. Bydd Cymru yn cael £2.7 miliwn gan yr Adran Masnach a Diwydiant i wella cyfleusterau Telathrebu band llydan. Mae'n bwysig bod y Cynulliad a'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn ymwybodol bod y Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried TGCh yn adnodd i'w alluogi i gyflwyno polisïau a gall TGCh arwain at fynediad gwell i raglenni a weithredir gan y Comisiwn.
- Nodwyd bod datblygu system o Rapporteuriaeth rhwng Pwyllgor y Rhanbarthau, CEC a'r TRN yn ffordd gadarnhaol o rannu arbenigedd rhwng y cyrff.
- Trafodwyd pwysigrwydd strategaeth Cymru Ar-lein. Sicrhaodd y strategaeth bod defnyddio TGCh wrth wraidd pob maes polisi ac nad oedd gwaith yn cael ei ddyblygu. Roedd prosiect Jigsaw yn enghraifft o lwyddiant y strategaeth.

**Eitem 3: Trafodaeth â Chadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

3.1 Hysbyswyd y Pwyllgor gan Glyn Davies fod i bron pob mater a drafodir yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ddimensiwn Ewropeaidd. O ran clwy'r traed a'r genau, mae penderfyniadau Ewropeaidd wedi effeithio ar amrywiaeth eang o faterion megis brechu, ariannu ac ailddechrau allforio. Yn yr un modd, diwygiadau Ewropeaidd o bolisi amaethyddol cyffredin fydd prif destun y ddadl ar gyllid yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth.

3.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Bu ymweliad y Pwyllgor Amaethyddiaeth â Brwsel yn werthfawr iawn fel ymarfer cael gwybodaeth ac mae'n werth ystyried ymweliad tebyg unwaith y flwyddyn.
- Mae angen ymagwedd fwy rhagweithiol tuag at Ewrop. Mae'n hanfodol bod y Cynulliad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am flaenraglenni'r Sefydliadau Ewropeaidd. Gall CEC helpu'r broses hon. Mae'n bwysig bod y Cynulliad yn blaenoriaethu'r materion sydd angen sylw penodol er mwyn cynnal agenda ragweithiol.
- Mae'r Cynulliad wedi penodi swyddog i Swyddfa Ewropeaidd Cymru i ystyried Amaethyddiaeth mewn cyd-destun Ewropeaidd.
- Mae cyfathrebu rhwng pwyllgorau ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredinol yn werthfawr iawn. Gellir hwyluso'r broses hon drwy gael aelodau sydd ar y ddau bwyllgor a thrwy waith cysylltu rhwng y clerciaid.

**Eitem 4: Adroddiad ar gyfarfod cyntaf y Gweithgor Ehangu**

**Papur:** EUR-05-01(p3)

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd y papur, a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gyfarfod cyntaf y Gweithgor. Canolbwyntiodd y grðp ar yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer gefeillio naill ai â gwledydd bach sy'n datblygu megis Slofenia, Slofacia, Cyprus, Malta a'r Gwledydd Baltig neu â rhanbarthau yng Ngwlad Pwyl, Hwngari neu'r Weriniaeth Tsiec. Trafododd y Grðp y posibilrwydd o efeillio â Silesia oherwydd y tebygrwydd rhwng y diwydiannau Glo a Dur yn y rhanbarthau dan sylw a'r anawsterau o ran dwyn y diwydiant i mewn i farchnad wladol gystadleuol. Ystyriwyd hefyd y posibilrwydd o efeillio â gwladwriaeth sy'n ddatblygedig yn dechnegol, megis Slofenia, sydd ar hyn o bryd yn delio â'r broses o newid i economïau ar wedd Ewropeaidd. Ceisiodd y Grðp hefyd ddatrys y materion sy'n ymwneud â'r ddadl ar ehangu ac ystyriodd ffyrdd o farchnata Cymru drwy'r sector preifat a'r sector cyhoeddus, at ddibenion masnachol ac er mwyn sicrhau nad yw'r gwledydd sydd yn y broses o gael eu derbyn yn canolbwyntio ar Lundain yn unig.

4.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Ymhlith aelodau'r Gweithgor, mae cynrychiolwyr o bob plaid wleidyddol, Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain, Ffederasiwn Busnesau Bach, ELWa, Cyngres yr Undebau Llafur Cymru, Addysg Uwch Cymru, CLlLC a'r WGA (y Cyfan o Gyfrifion y Llywodraeth), er nad oes aelod sy'n cynrychioli'r diwydiant ffermio.
- Byddai defnyddio'r Gyfarwyddiaeth Ehangu mewn cyfarfodydd y Grðp yn y dyfodol o fudd. Ystyriwyd y byddai cyfle i'r Pwyllgor gyfarfod â Chomisiynydd Ewrop ar gyfer Ehangu yn ddefnyddiol. Ystyriwyd hefyd y byddai cyfraniad ASE yn y Gweithgor a'r Pwyllgor yn hanfodol i'r ddadl ar ehangu.
- Mae trefniadau gefeillio yn gofyn am hwb a fydd yn sicrhau eu bod yn cael blaenoriaeth yn y 12 mis nesaf. Ar hyn o bryd, mae CEC yn ymgymryd â dadansoddiad archwilio cynhwysfawr o ranbarthau sy'n ehangach na'r gwledydd sy'n ymgeisio a fydd yn rhoi strategaeth gyfeiriol ar gyfer gefeillio, y gall Cymru ei dilyn.
- Mae Cymru yn marchnata ei hun drwy amlygu'r newid a fu iddi o fod yn genedl a oedd yn seiliedig ar ddiwydiant i fod yn genedl fodern. Mae'r fenter Cymru Cenedl y Byd yn helpu'r broses honno.
- Gofynnodd y Pwyllgor am archwiliad o'r cysylltiadau presennol â'r gwledydd sy'n ymgeisio.

**Eitem 5: Datblygu Cynaliadwy yn y Cyd-destun Ewropeaidd**

**Papur:** EUR-05-01(p4)

5.1 Cyflwynodd Charles Coombs y papur, gan nodi'n arbennig ymagwedd yr Undeb Ewropeaidd tuag at ddatblygu cynaliadwy, sy'n debyg yn fras i ymagwedd Cymru tuag at y mater, er bod ymagwedd yr UE yn seiliedig ar her tra bod y Cynulliad yn ystyried enghreifftiau o arfer da. Mae'r Cynulliad wedi cyflwyno cais am grant i'r Comisiwn ar gyfer rhwydwaith o'r

enw y Labordy Pan-Ewropeaidd ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Byddai'r rhwydwaith hwn yn gwella'r broses o gysylltu â rhanbarthau eraill yn Ewrop a byddai'n datblygu'r gydberthynas â gwledydd sydd yn y broses o gael eu derbyn.

5.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Ar hyn o bryd, mae'r Uned Datblygu Cynaliadwy yn dibynnu ar gyngor gan CEC ar ddefnyddio pwysau gwleidyddol i gefnogi'r cais am grant.
- Gallai'r wybodaeth ar ddatblygu cynaliadwy fod o fudd i'r Gweithgor Ehangu, yn enwedig gan fod sefyllfa Estonia yn debyg i sefyllfa Cymru.
- Gall yr adborth ar brosiectau datblygu cynaliadwy arloesol yng Nghymru a'i rhanbarthau partner helpu i lywio adolygiad y Comisiwn o'r ffordd o ddosbarthu arian Strwythurol yn y dyfodol.

**Eitem 6: Cynhadledd Rhanbarthau Ymylol ac Arforol**

**Papur:** EUR-05-01(p5)

6.1 Cyflwynodd Des Clifford y papur hwn a amlinellodd gyfranogiad parhaus y Cynulliad yn y Gynhadledd. Caiff cynhadledd ei chynnal yng Ngroeg ym mis Medi 2002 a byddai cynrychiolwyr y Cynulliad yn elwa ar gyfranogiad y Pwyllgor. Bydd is-grðp Gwledydd Glannau'r Iwerydd y Gynhadledd yn cyfarfod ym mis Gorffennaf 2002. Dylid ystyried y cyfle i'r Cynulliad fod yn rhan o weithrediaeth y Gynhadledd hefyd. Crybwyllodd Des Clifford y gallai bod yn aelod o'r Gynhadledd fod yn ddefnyddiol wrth ddarparu cyfleoedd ar gyfer prosiectau INTERREG III B a C.

6.2 Wrth drafod, cytunwyd y byddai cyfranogiad Aelodau o'r Cynulliad yn y Gynhadledd o fudd er mwyn dylanwadu ar y sefydliad yn hytrach nag i ddysgu ohono yn unig.

**Eitem 7: Cydlyniant yng Nghyd-destun Ehangu**

**Papur:** EUR-05-01(p12)

7.1 Roedd aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn bresennol ar gyfer yr eitem hon.

7.2 Gwnaeth swyddogion yr Adran Masnach a Diwydiant gyflwyniad i'r Pwyllgor ar ddyfodol Cronfeydd Strwythurol yr UE ar ôl 2006 ac yn fwy cyffredinol, ar ddyfodol polisi economaidd a pholisi cydlyniant yng nghyd-destun ehangu. Gan nad oedd yn fater datganoledig, roedd gan yr Adran Masnach a Diwydiant ddiddordeb ym marn y Cynulliad ar effeithiolrwydd y cronfeydd wrth gyflawni eu nodau penodol. Yng nghyfnod 2000-2006, roedd y DU wedi cael tua £10 biliwn o Arian Strwythurol. Anerchodd y Gweinidog Gwladol dros y rhanbarthau a chysylltiadau cyflogaeth, Alan Johnson, gyfarfod anffurfiol o Weinidogion yn Naumur yn ystod yr haf gan drafod diddordeb llywodraeth y DU mewn cael adolygiad trylwyr o bolisi cydlyniant yr UE. Dywedodd y dylai hyn ddigwydd cyn dod i unrhyw benderfyniadau am ei

dyfodol ar ôl ei hehangu ac ar ôl y cylch presennol o raglenni cronfeydd rhanbarthol. Tair o’r ystyriaethau allweddol oedd sicrhau bod y cronfeydd strwythurol a chydlyniant yn cael eu sianelu at gyflawni agenda Lisbon; y caiff eu heffeithiolrwydd ei wella; ac y ceir llai o fiwrocratiaeth.

7.3 Cafodd Cymru tua £1.1 biliwn o Gronfeydd Strwythurol 2000-2006 ac ni fyddai’r gwledydd sydd yn y broses o gael eu derbyn yn effeithio ar y ffordd bresennol o ddyrannu’r arian. Byddai’r gwledydd sydd yn y broses o gael eu derbyn, sydd â chynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) sy’n llawer is ar gyfartaledd nag aelodau presennol y CE, ac eithrio Slofenia a Cyprus, yn effeithio ar y ffordd o ddyrannu’r arian yn y dyfodol. Nodwyd ei bod yn haws gwerthuso manteision i’r broses o fod yn rhan o system y Cronfeydd Strwythurol na manteision economaidd yr arian: amlygodd y cronfeydd strwythurol faterion rhanbarthol, rhoddodd gysylltiad uniongyrchol â sefydliadau’r UE i’r rhanbarthau a chynorthwyodd y rhanbarthau i ddatblygu’r broses o weithio mewn partneriaeth. Roedd Llywodraeth y DU yn awyddus i sicrhau na ddylai’r gwaith o ddatblygu’r cronfeydd strwythurol a chydlyniant rwystro’r broses ehangu ac y dylai’r ffordd o ddyrannu’r cronfeydd yn y dyfodol sicrhau canlyniadau teg ar gyfer y 15 o wledydd sy’n aelod o’r UE ar hyn o bryd a’r gwledydd sydd yn y broses o gael eu derbyn. Dylid ystyried y broses o ddiwygio’r cronfeydd strwythurol a chydlyniant ochr yn ochr ag offerynnau polisi eraill yr UE, yn enwedig diwygiadau i’r polisi amaethyddol cyffredin. Yn achos Cymru, gallai fod yn bwysig ystyried gwir effaith y cronfeydd strwythurol ar berfformiad economaidd Cymru; y gwerth y gallai’r cronfeydd strwythurol ei ychwanegu at bolisïau’r DU neu bolisïau o ran Llywodraethu Cymru, a pha un ai’r farn oedd ffafrio model "cronfa glir" bondigrybwyll yr Almaen neu alwad Sbaen am ddiwygiadau i alluogi pawb sy’n cael arian Amcan 1 ar hyn o bryd i barhau i fod yn gymwys.

7.4 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Mynegwyd pryder ynglþn â’r ffaith bod y gwahaniaethau rhwng cynnyrch mewnwladol crynswth y rhanbarthau yn cynyddu, yn enwedig yn y DU. Hysbyswyd y Pwyllgor mai polisi Llywodraeth y DU oedd lleihau’r gwahaniaethau rhanbarthol. Roedd yn bwysig gwerthuso effeithiolrwydd y Cronfeydd Strwythurol o ran lleihau’r gwahaniaethau rhanbarthol hyn.
- Nodwyd y bydd y cymhorthion gweithredu sydd ar gael i Gymru oherwydd ei statws Amcan 1 mor bwysig i Gymru ar ôl 2006 â’r Cronfeydd Strwythurol eu hunain.
- Roedd Llywodraeth y DU wrthi’n llunio ei hymagwedd tuag at ddyfodol y Cronfeydd Strwythurol gan ymgynghori â’r rhanbarthau a’r gweinyddiaethau datganoledig.
- Ystyriwyd bod cynnyrch mewnwladol crynswth yn ffordd fras o fesur, ond byddai’r Comisiwn yn parhau i’w defnyddio oherwydd ei bod yn berthnasol ledled Ewrop.
- Y dylai Cymru gymryd rhan lawn yn y ddadl sy’n datblygu.

**Eitem 8: Cyfarwyddeb Arfaethedig ar Wybodaeth ac Ymgynghori â Chyflogeion**

**Papur:** EUR-05-01(p6)

8.1 Cyflwynodd John Griffiths y papur, a ddangosodd yr angen i ddiogelu hawliau cyflogeion

yng Nghymru. Byddai’r gyfarwyddeb o fudd i Gymru oherwydd y byddai’n annog arfer busnes da yn y ffordd y caiff cyflogeion eu trin. Dylai Cymru geisio denu busnesau sy’n cydymffurfio â’r gyfarwyddeb i fod yn enghreifftiau o arfer da.

8.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nododd yr Aelodau a oedd yn bresennol y byddent yn cefnogi gweithredu’r gyfarwyddeb arfaethedig cyn gynted â phosibl.
- Cynigiwyd newidiadau i’r gyfarwyddeb ddrafft, sy’n cynnwys cosbi cwmnïau nad ydynt yn cydymffurfio â’r gyfarwyddeb a phroses weithredu gyflymach dros 2 flynedd.
- Yr Adran Masnach a Diwydiant bellach fydd yn gyfrifol am weithredu’r gyfarwyddeb a bydd yn ymgynghori ynghylch y modd o wneud hyn.
- Nododd y Pwyllgor fod hwn yn fater trawsbynciol a bod angen barn y Pwyllgor Datblygu Economaidd a phartïon eraill sydd â diddordeb yn y mater.
- Nododd y Cadeirydd y byddai’n ceisio lleisio’r farn a fynegwyd gan yr aelodau yn y weithdrefn gymodi rhwng y Senedd Ewropeaidd a’r Cyngor.

**Eitem 9: Ymchwiliad i ddemocratiaeth ac atebolrwydd yn yr UE a rôl y seneddau cenedlaethol**

**Papur:** EUR-05-01(p7)

9.1 Cyflwynwyd y papur gan y clerc. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cytunwyd bod angen rhoi gwybod i Bwyllgor Craffu Ewropeaidd Tþ’r Cyffredin y bydd y Pwyllgor yn gwneud ei gyfraniad ei hun at y ddadl ar y Papur Gwyn ar Lywodraethu drwy’r Cynulliad erbyn diwedd mis Mawrth 2002.
- Gwahoddwyd y Pleidiau Gwleidyddol Unigol i roi sylwadau i Ymchwiliad Tþ’r Cyffredin, pe dymunent.
- Ymrwymodd y Cadeirydd i ddosbarthu agenda Uwchgynhadledd y Rhanbarthau yn Liege a gynhelir yn y dyfodol agos i’r pwyllgor i alluogi’r aelodau i fynegi eu barn.

**Eitem 10: Gweithdrefnau Trin ar gyfer y Papur Gwyn ar Lywodraethu**

**Papur:** EUR-05-01(p8)

10.1 Cyflwynodd Des Clifford yr eitem a amlinellodd yr angen am drafodaeth eang ei chwmpas ar oblygiadau’r Papur Gwyn ledled Cymru.

10.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Byddai ymateb y Cynulliad i’r ddadl yn ehangach ac yn fwy gwerthfawr pe trafodwyd y Papur Gwyn mewn Cyfarfod Llawn. Bydd y Cadeirydd yn trafod y posibilrwydd o gynnal dadl yn y Flwyddyn Newydd mewn un o gyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Busnes.
- Ymrwymodd y Dirprwy Brif Weinidog i ysgrifennu at y Cadeirydd gan amlinellu’r syniadau a

gynigiwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd o ran creu fforwm i ledaenu'r materion a godir yn y Papur Gwyn ymhlith pobl Cymru. Gallai'r fforwm fod yn gysylltiedig â'r gwaith a wneir gan y gweinyddiaethau datganoledig eraill.

- Cytunwyd bod angen datganiad cenhadaeth ar bob lefel o lywodraeth cyn uwchgynhadledd 2004.
- Cytunwyd y byddai'r Papur Gwyn ar Lywodraethu yn cael ei drafod ymhellach yng nghyfarfod y Pwyllgor ym Mrwsel ar 5 Rhagfyr 2001.

**Eitem 11: Adroddiadau gan Wahoddedigion Sefydlog**

**Papur:** EUR-05-01(p9)

11.1 Nododd John Griffiths i'r Senedd Ewropeaidd a Phwyllgor y Rhanbarthau gynnal cyfarfod ar y cyd er mwyn datblygu protocol i ystyried materion yn fanylach ac yn fwy effeithiol.

11.2 Nododd y Pwyllgor y papur a gofnododd weithgareddau ASE Cymru.

**Eitem 12: Cyfarfod Brwsel**

**Papur:** EUR-05-01(p10)

12.1 Cyflwynodd y clerc y papur, a roddodd fanylion ynghylch trefniadau cyfarfod y Pwyllgor ym Mrwsel ar 5 Rhagfyr.

12.2 Cytunodd y Pwyllgor i adael y Cynulliad am 3:45pm ddydd Mawrth 4 Rhagfyr ac i gyflwyno unrhyw faterion yr hoffent eu codi yn y cyfarfod i Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.

12.3 Cytunwyd i ganslo cyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w gynnal ar 14 Tachwedd.

**Eitem 13: Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**Papur:** EUR-04-01(min)

13.1 Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.